# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 2

CYDGYSYLLTU A CHYNLLUNIO GOFAL AR GYFER DEFNYDDWYR GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL EILAIDD

*Diffiniadau*

### 12 Ystyr "claf perthnasol"

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae unigolyn yn glaf perthnasol os yw darparydd gwasanaeth iechyd meddwl yn gyfrifol am ddarparu unrhyw wasanaeth iechyd meddwl eilaidd i'r unigolyn.

(2) Mae unigolyn nad yw'n dod o fewn is-adran (1) hefyd yn glaf perthnasol os–

(a) yw'r unigolyn o dan warcheidiaeth awdurdod lleol yng Nghymru; neu

(b) mae darparydd gwasanaeth iechyd meddwl wedi penderfynu y byddai gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd yn cael ei ddarparu i'r unigolyn pe byddai'r unigolyn yn cydweithredu â'r ddarpariaeth honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 12 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 12 mewn grym ar 6.6.2012 gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 12.